



**MUNUDAU CYFARFOD Y CYNGOR A GYNHALIWDYD AM 7.30y.h..
DDYDD MAWRTH , CHWEFROR 6ed, 2018, YN NEUADD ABERCONWY,
EGLWYSBACH.**

1. CROESO - Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod, ac yn arbennig felly'r SCCH (Swyddog Cefnogi Cymunedol yr Heddlu - PCSO) Phil Gale o Heddlu Gogledd Cymru.
2. YN BRESENNOL - Y Cadeirydd, y Cynghorydd Gwyn Morris Jones a'r Cyngorwyr John Emlyn Jones; John Lloyd Williams; Arthur Williams; Ceri Leeder; Gwenan Roberts, Gwilym Williams; Phyllis Purchase a'r Cyngorwyr Sir, Austin Roberts.
3. YMDDIHEURIADAU - Y Cyngorwyr Catherine Williams.
4. DATGANIADAU O DDIDDORDEB - Ni ddatgelwyd yr un.
5. MUNUDAU - PENDERFYNWYD cadarnhau, cymeradwyo ac arwyddo munudau cyfarfod diwethaf y Cyngor a gynhaliwyd ar Ionawr 2ail, 2018, yn y neuadd, Eglwysbach. Cynigwyd gan y Cyngorwyr Ceri Leeder a John Emlyn Jones.

YMWELYDD Â'R CYNGOR

Unwaith eto fe groesawodd y Cadeirydd y SCCH Phil Gale i'r cyfarfod a gofyn iddo gyfarch y Cyngor. Diolchodd y SCCH Gale i'r aelodau am eu croeso a dweud bod yna gynnydd mewn patrolio yn y pentref, hyd at ddau neu dri y dydd. Roedd hyn yn bennaf oherwydd derbyn cwynion gan rai teuluoedd am ymddygiad aflonyddgar a hefyd fwrgheriaeth. Roedd unrhyw ddigwyddiadau'n cael eu trin gan Uned Ymateb Reoledig. Fe fu rhai achosion o fwrgheriaeth yn yr ardal, un ym Modnant. Nid oedd

neb dan amheuaeth ar hyn o bryd. Dywedodd hefyd fod yna ychydig o gwtogi ar staff wedi bod. Roedd dau swyddog wedi gadael yr ardal. Gofynnodd yr aelodai i'r SCCH Gale a ellid cadw golwg ar barcio anystyriol ar linellau igam-ogam yr ysgol. a hefyd ar or-yrru yn yr ardal honno. Fe gadarnhaodd y SCCH Gale y gwneid hynny. Dywedodd Mr. Gale hefyd y byddai swyddog yn ymweld â chlwb yr henoed a digwyddiadau eraill er mwyn ceisio tawelu meddwl y trigolion.

6. MATERION YN CODI

11.17/5(i) Cyflymder y Band Eang. Y diweddaraf. Dywedodd y Cynghorydd Austin Roberts fod cysylltu wedi bod gyda Mr McKee o Gyngor Sir Conw, ond dywedodd nad ei gyfrifoldeb ef oedd hynny. Fe fyddai'n rhaid i'r Cyngor bwysu ar BT, ac fe atgoffwyd yr aelodau hefyd, yn dilyn y sgwrs gan Ms Ella Williams, fod yna gymorth trwy grantiau i geisio datrys y mater.

11.17/5(ii) Arosfannau bws. Y diweddaraf. Cadarnhawyd bod hyn wedi dechrau yr wythnos ddiwethaf.

11.17/5(iv) Glanhau'r ffordd rhwng Croesangen a Chweffordd , a hefyd i Dŷ'n -Twll. I dderbyn e-bost gan y Cyngor Sir. Fe gadarnhaodd y Cynghorydd Sir Roberts fod hyn ar yr amserlen i'w wneud.

11.17/5(v) Gwasanaeth bws X1. Nid oedd unrhyw gysylltu pellach wedi ei dderbyn.

12.18/5(i) Mwy o bresenoldeb yr Heddlu yn y pentref. Os gwelwch yn dda nodwch yr adroddiad gan y SCCH Gale.

1.18/11(i) Adnewyddu'r diffibriliwr. Trafododd yr aelodau hyn yn helaeth,. Fe fyddai'n rhaid dod o hyd i safle addas, ynghyd â ffynhonnell drydan

12.17/12(ii) Y Praesept. Trafodwyd y Praesept ac fe BENDERFYNWYD gosod y praesept ar £6721.00

1.18/11(ii) Yswiriant atebolrwydd cyhoeddus ar gyfer y Clerc. Fe ohiriwyd hyn.

1.18/11(vii) Sgaffaldiau yn London House. NODODD yr aelodau fod y rhain bellach wedi eu symud.

7. CYNLLUNIO

2.18/6(i) 0/44699 Gollwng amodau 12 ac 19 o ganiatâd cynllunio 0/41695 (Newid arfaethedig adeilad allan diangen i breswylfa gwyliau ac i ffurfioli mynedfa o'r A470 i goedlan) yn Dyto Barn, Maenan. Mr Michael McLaren. PENDERFYNWYD DIM GWRTHWYNEBIAD.

2.18/6(ii) 0/44701 Newid defnydd bwthyn pen-garddwr i gynnal swyddfa, estyniad i'r bwthyn, codi adeilad lles staff, iard storio wedi ei thoi, a sied arddio yng ngerddi Bodnant, Eglwysbach. Mr William Greenwood. PENDERFYNWYD DIM GWRTHWYNEBIAD

2.18/6(iii) 0/44733 Newid rhannol ddefnydd eiddo presennol gydag addasiadau codi uchder cysylltiedig i'r adeilad presennol, Pen y Bont, Eglwysbach. Mr Christopher Roberts. PENDERFYNWYD DIM GWRTHWYNEBIAD gan y mwyafrif o'r cynghorwyr. Roedd y Cynghorydd Ceri Leeder eisiau cofnodi ei gwrthwynebiad.

2.18/6(iv) 0/44755 Estyniad to rhediad goleddf i du blaen ac ochr annedd presennol yn Nant y Gerrig Ucha, Ffordd Bryn Frân Eglwysbach. Mr Craig Greenhalgh. PENDERFYNWYD DIM GWRTHWYNEBIAD

2.18/6(v) 0/44805 Estyniad deulawr a lledu mynedfa safle ym Mhant y Celyn, Ffordd Pennant, Eglwysbach. Mr Emrys Davies Davies. PENDERFYNWYD DIM GWRTHWYNEBIAD

8. ADRODDIAD ARIANNOL - PENDERFYNWYD cadarnhau a chymeradwyo adroddiadau'r Banc hyd at Ionawr 5ed, 2018

Cyfrif wrth gefn£2069.74

Cyfrif y fynwent£2313.20

Cyfrif cyfredol£5130.26

9. TALIADAU A DDERBYNIWYD - Dim.

10. TALIADAU - PENDERFYNWYD talu'r holl eitemau a restrir isod:-

2.18/9(i) Mrs Hayward£ 122.50

2.18/9(ii) Mrs Marian Pryor Archwiliwr mewnol£ 100.00

2.18/9(iii) Merched y Wawr£ 50.00

2.18/9(iv) Ymddiriedolwyr Clwb y Ffermwyr Ifanc£ 50.00

2.18/9(v) Eisteddfod Llanrwst£ 50.00

2.18/9(vi) Hurio Neuadd Aberconwy£ 36.00.

11. GOHEBIAETH

2.18/10(i) Llythyr gan HSBC ynglŷn â siec a ddychwelwyd gan G.Lloyd Jones Funeral Directors. Fe ddeliwyd gyda'r mater hwn gyda diolch.

2.18/10(ii) E-bost gan Eisteddfod Llanrwst yn gofyn am grant. PENDERFYNWYD cyfrannu £50.00

2.18/10(iii) Nodyn gan yr archwiliwyr allanol ynglŷn â themau rheolaeth. NODWYD hyn.

12. UNRHYW FATER ARALL

2.18/12(i) Tyllau ffordd yn Ffordd Pennant.

2.18/12(ii) Adroddiad am rew ar groesffordd Rhandir - dim graeanu wedi ei wneud.

2.18/12(iii) Adroddiad am arllwys sbwriel yn y Chwarel.

2.18/12(iv) Penderfynwyd ystyried rhoi cyfraniad o £1,000 tuag at gronfa leol Eisteddfod Genedlaethol Sir Conwy 2019.

13. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF - Mawrth 6ed, 2018. NODWYD.

Gan nad oedd unrhyw faterion eraill i'w trafod fe orffennodd y cyfarfod am 9.20y.h.

CADEIRYDD.....

DYDDIAD.....